General Medical Council

Safonau proffesiynol

Yn dod i rym: 25 Ebrill 2017

Cyfrinachedd: ymateb i feirniadaeth yn y cyfryngau

Crynodeb

Mae'r canllawiau hyn yn edrych ar sut i ymateb os cewch eich beirniadu'n gyhoeddus, yn enwedig os yw'r adroddiad yn anghywir neu'n annheg. Os nad oes gennych gydsyniad pendant gan glaf, mae'n awgrymu'r hyn y gallech ei ddweud heb roi gwybodaeth gyfrinachol yn y parth cyhoeddus. Maent yn berthnasol i'r cyfryngau cymdeithasol yn ogystal â deunydd print a deunydd i'w ddarlledu

General Medical Council

Cyfrinachedd: ymateb i feirniadaeth yn y cyfryngau

Safonau proffesiynol: Canllawiau manylach

Daeth y canllawiau hyn i rym ar 25 Ebrill 2017.

Cafodd y canllawiau hyn eu diweddaru ddiwethaf ar 13 Rhagfyr 2024.

Gallwch weld y fersiwn ddiweddaraf o'n holl safonau proffesiynol trwy droi at www.gmc-uk.org/guidance.

The GMC is a charity registered in

Cynnwys

Cyfrinachedd: ymateb i feirniadaeth yn y cyfryngau 1

Am y canllawiau hyn 3

Ymateb i feirniadaeth 3

Ôl-nodiadau 5

Ni waeth faint gymaint yw'r demtasiwn i ymateb os cewch eich beirniadu'n gyhoeddus, yn enwedig os yw'r adroddiad yn anghywir neu'n annheg, rhaid i chi beidio â rhoi gwybodaeth gyfrinachol yn y parth cyhoeddus heb gael cydsyniad penodol eich claf.

Mae'r canllawiau hyn yn edrych ar yr egwyddorion y tu ôl i hyn, ac maent yn awgrymu beth y gallech ei ddweud, hyd yn oed os na chewch ddatgelu'r manylion. Maent yn berthnasol i'r cyfryngau cymdeithasol yn ogystal ag i'r cyfryngau print a'r cyfryngau darlledu.

1. Yn ein canllawiau *Cyfrinachedd: arfer da wrth ymdrin â gwybodaeth cleifion* rydym yn nodi:

    1. Mae ymddiriedaeth yn rhan hanfodol o'r berthynas rhwng gweithiwr meddygol proffesiynol a chlaf ac mae cyfrinachedd yn ganolog i hyn. Efallai y bydd cleifion yn osgoi ceisio help meddygol, neu efallai na fyddant yn rhoi disgrifiad llawn o'u symptomau, os byddant yn credu y bydd eu gwybodaeth bersonol yn cael ei datgelu heb eu cydsyniad, neu os na fyddant yn cael y cyfle i gael rhywfaint o reolaeth dros yr amseru neu swm y wybodaeth a rennir.

Am y canllawiau hyn

2. Weithiau, caiff meddygon, cymdeithion meddygol a chymdeithion anesthesia (y cyfeirir atynt gyda'i gilydd fel gweithwyr meddygol proffesiynol) eu beirniadu mewn cyfryngau argraffedig neu gyfryngau a ddarlledir neu ar gyfryngau cymdeithasol[1] gan eu cleifon[2] neu gan rywun sy'n agos i glaf neu sy'n cynrychioli claf. Gall y feirniadaeth gynnwys manylion anghywir neu gamarweiniol ynghylch diagnosis, triniaeth neu ymddygiad y gweithiwr meddygol proffesiynol.

3. Er bod hyn yn gallu peri rhwystredigaeth neu ofid, nid yw'n eich rhyddhau chi o'ch dyletswydd i barchu cyfrinachedd eich claf. Mae'r canllawiau hyn, sy'n rhan o'r safonau proffesiynol, yn nodi sut y mae'r egwyddorion cyffredinol yn ein canllawiau *Cyfrinachedd* yn berthnasol pan fydd gweithwyr meddygol proffesiynol yn ystyried sut i ymateb i feirniadaeth yn y cyfryngau.

    Mae'r safonau arfer da yn berthnasol i feddygon, cymdeithion meddygol a chymdeithion anesthesia (y cyfeirir atynt gyda'i gilydd fel gweithwyr meddygol proffesiynol ac fel 'chi' yn y canllawiau hyn). Fel gyda'n holl safonau proffesiynol, mae'r canllawiau hyn yn berthnasol i'n gweithwyr proffesiynol cofrestredig i'r graddau y maent yn berthnasol i ymarfer yr unigolyn.

    Mae'r safonau proffesiynol yn disgrifio arfer da, ac ni fydd pob achos o wyro oddi wrthynt yn cael ei ystyried yn ddifrifol. Rhaid i chi ddefnyddio eich barn broffesiynol i ddilyn y safonau yn eich gwaith o ddydd i ddydd. Os byddwch yn gwneud hyn, yn gweithredu'n ddidwyll ac er lles cleifion, byddwch yn gallu egluro a chyfiawnhau eich penderfyniadau a'ch gweithredoedd.

Rydym yn dweud mwy am farn broffesiynol, a sut mae'r safonau proffesiynol yn ymwneud â'n prosesau, arfarnu ac ailddilysu addasrwydd i ymarfer, ar ddechrau *Arfer meddygol da*.

Ymateb i feirniadaeth

4. Mae datgelu gwybodaeth cleifion heb gydsyniad yn gallu tanseilio ffydd y cyhoedd yn y proffesiynau, yn ogystal â fydd eich claf ynoch chi. Mae anghydfod rhwng cleifion a gweithwyr meddygol proffesiynol sy'n digwydd yn gyhoeddus hefyd yn gallu ymestyn neu ddwysau gwrthdaro, a gall danseilio ffydd y cyhoedd yn y proffesiwn, hyd yn oed os nad ydynt yn ymwneud â datgelu gwybodaeth bersonol heb gydsyniad.

5. Rhaid i chi beidio â chyhoeddi gwybodaeth yr ydych chi wedi'i chael dan amodau cyfrinachol heb sicrhau cydsyniad penodol y claf hwnnw. Fel arfer, dylech gyfyngu eich ymateb cyhoeddus i esboniad o'ch dyletswydd cyfrinachedd cyfreithiol a phroffesiynol.

6. Fodd bynnag, o bryd i'w gilydd, gallai adroddiadau yn y cyfryngau neu ar gyfryngau cymdeithasol beri i gleifion deimlo'n bryderus am eich arferion, neu arferion gwasanaeth iechyd y mae gennych gyswllt gydag ef. Mewn achosion o'r fath, efallai y bydd yn briodol rhoi gwybodaeth gyffredinol am eich arferion arferol. Rhaid i chi fod yn ofalus na fyddwch yn datgelu gwybodaeth bersonol am glaf neu'n rhoi adroddiad am eu gofal, heb sicrhau eu cydsyniad. Os byddwch yn gwadu honiadau sy'n ymddangos yn y wasg gyhoeddus, rhaid i chi fod yn ofalus na fyddwch yn datgelu, yn uniongyrchol neu trwy hepgor neu ensynio, unrhyw wybodaeth bersonol ychwanegol am y claf, ac eithrio'r hyn sy'n ofynnol mewn datganiad gwadu syml.

7. Dylech geisio cyngor eich corff proffesiynol neu'ch corff amddiffyn, neu gyngor cyfreithiwr, ynghylch sut i ymateb i feirniadaeth yn y cyfryngau ac, os yw hynny'n briodol, unrhyw iawndal cyfreithiol sydd ar gael i chi.

Ôl-nodiadau

1 Gweler hefyd ein canllawiau *Defnyddio Cyfryngau Cymdeithasol Fel Gweithiwr Meddygol Proffesiynol*. Mae modd i chi weld ein holl ganllawiau ar-lein trwy droi at www.gmc-uk.org/guidance.

2 Yn y canllawiau hyn, mae'r gair 'claf' yn cyfeirio at gleifion presennol a chyn gleifion.

E-bost: **gmc@gmc-uk.org**
Gwefan: **gmc-uk.org**
Ffôn: **0161 923 6602**

Cyngor Meddygol Cyffredinol, 3 Hardman Street, Manchester M3 3AW

Ffôn testun: **ffoniwch 18001** yna **0161 923 6602** i ddefnyddio'r gwasanaeth Cyfleu Testun.

Ymunwch â'r sgwrs

@gmcuk **facebook.com/gmcuk**
linkd.in/gmcuk **youtube.com/gmcuktv**

I ofyn am y cyhoeddiad hwn mewn fformat neu iaith arall, ffoniwch ni ar **0161 923 6602** neu e-bostiwch ni ar **gmc@gmc-uk.org**.

Mae croeso i chi gysylltu â ni yn Gymraeg. Byddwn yn ymateb yn Gymraeg, heb i hyn achosi oedi ychwanegol.

© 2017 Cyngor Meddygol Cyffredinol

Gellir atgynhyrchu'r testun yn y ddogfen hon yn rhad ac am ddim mewn unrhyw ffurf neu gyfrwng, ar yr amod ei fod yn cael ei atgynhyrchu mewn ffordd gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y Cyngor Meddygol Cyffredinol dros y deunydd, a nodi teitl y ddogfen.

Mae Cyngor Meddygol Cyffredinol yn elusen wedi'i chofrestru yng Nghymru a Lloegr (1089278) a'r Alban (SC037750).

Cod: GMC/CON-MEDIA/1224